ATODLEN 5

Ardystio deunyddiau planhigion

RHAN 4

Ardystio deunyddiau ardystiedig

Gofynion pridd: planhigion tarddiol ardystiedig a deunyddiau ardystiedig

23.—(1) Rhaid tyfu planhigion tarddiol ardystiedig a deunyddiau ardystiedig mewn pridd sy'n rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU sy'n berthnasol i'r genws neu'r rhywogaeth o dan sylw ac sy'n lletya firysau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.

(2) Rhaid cadarnhau eu bod yn rhydd rhag y cyfryw blâu drwy waith samplu a phrofi gan arolygydd a, phan fo'n briodol, gan gyflenwr.

(3) Rhaid cyflawni gwaith samplu a phrofi—

(a) cyn plannu'r planhigion tarddiol ardystiedig neu'r deunyddiau ardystiedig, a rhaid ail wneud y gwaith hwnnw yn ystod twf pan fo amheuaeth ynghylch presenoldeb y cyfryw blâu;

(b) gan gymryd i ystyriaeth yr amodau hinsoddol, bioleg y plâu, a pherthnasedd y plâu i'r planhigion tarddiol ardystiedig neu'r deunyddiau ardystiedig o dan sylw;

(c) yn unol â'r protocol priodol.

(4) Nid yw gwaith samplu a phrofi yn ofynnol—

(a) yn achos planhigion ffrwythau ardystiedig;

(b) pan na fo planhigion, sy'n lletya'r plâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, wedi eu tyfu yn y pridd cynhyrchu am gyfnod o bum mlynedd o leiaf a phan na fo amheuaeth ynghylch absenoldeb y plâu perthnasol yn y pridd hwnnw;

(c) pan fo arolygydd yn dod i'r casgliad, ar sail arolygiad swyddogol, fod y pridd yn rhydd rhag unrhyw blâu a restrir yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 2014/98/EU, ar gyfer y genws neu'r rhywogaeth o dan sylw, ac sy'n lletya firysau sy'n effeithio ar y genws hwnnw neu'r rhywogaeth honno.